# Sut i gasglu sampl wrin gan ddefnyddio padiau neu fagiau casglu

**Ar gyfer babanod a phlant bach**


## Bagiau casglu wrin

**1**




Golchwch eich dwylo â sebon a dŵr cyn ac ar ôl casglu'r sampl.

**2**




Glanhewch a sychwch ardal organau cenhedlu'r plentyn.

**3**




Gludwch y bag yn ddiogel i'r croen o amgylch yr organau cenhedlu, yna rhowch gewyn ymlaen.

**4**



Pan fydd y plentyn wedi gorffen pasio wrin, golchwch eich dwylo, tynnwch y bag yn ofalus, torrwch gornel ac arllwyswch yr wrin (pi) i'r cynhwysydd di-haint. Peidiwch â gadael i'r bag gyffwrdd y tu mewn i'r cynhwysydd.

**5**



Rhowch y caead ar y cynhwysydd ar unwaith a'i dynhau'n ddiogel.


## Padiau casglu wrin

**1**




Golchwch eich dwylo cyn ac ar ôl casglu'r sampl.

**2**




Rhowch y pad y tu mewn i'r cewyn a gofynnwch i'r plentyn ei wisgo fel arfer. Gwiriwch y pad bob 10 munud i weld os yw'n wlyb. Peidiwch â gadael pad i mewn am fwy na 30 munud, gan fod hyn yn cynyddu'r risg o germau yn mynd i mewn i'r sampl.

**3**



Dechreuwch y broses eto gyda pad ffres bob 30 munud, neu os yw'r plentyn wedi cael pŵ, nes bod y plentyn wedi rhoi wrin ar un.

**4**



Golchwch eich dwylo cyn tynnu'r pad. Defnyddiwch y chwistrell a ddarperir i dynnu'r wrin o'r pad a'i drosglwyddo i'r cynhwysydd di-haint. Peidiwch â chyffwrdd y tu mewn i'r cynhwysydd â'r chwistrell.

**5**



Rhowch y caead ar y cynhwysydd yn syth a'i dynhau'n ddiogel.

**6**



Peidiwch â defnyddio gwlân cotwm,rhwyllen nac unrhyw badiau eraill, gan y gallant effeithio ar ganlyniadau'r prawf.

## Pwyntiau cyffredinol

- **Glanhewch a sychwch organau cenhedlu'r plentyn** cyn casglu'r sampl.
- **Cofiwch i olchi eich dwylo** â sebon a dŵr cyn ac ar ôl casglu sampl wrin.
- **Peidiwch ag agor y cynhwysydd di-haint** nes eich bod yn barod i gasglu'r sampl.
- **Defnyddiwch badiau neu fagiau** dim ond os yw eich darparwr gofal iechyd wedi eu rhoii chi ac wedi egluro sut i'w defnyddio. Dilynwch unrhyw gyfarwyddiadau maen nhw'n eu rhoi i chi.
- **Osgowch gyffwrdd â thu mewn y cynhwysydd,** ac osgowch adael i organau cenhedlu'r plentyn gyffwrdd ag unrhyw ran ohono.
- **Labelwch y cynhwysydd cyn casglu'r sampl** os yw eich gweithiwr gofal iechyd proffesiynol wedi gofyn i chi wneud hynny.

## Gwybodaeth gryno

**Pam mae angen i mi ddilyn cyfarwyddiadau'n ofalus wrth ddefnyddio dyfeisiau i gasglu sampl wrin?**

Mae dilyn y camau'n iawn yn helpu i atal germau rhag mynd i mewn i'r sampl, sy'n gwneud y canlyniadau'n fwy dibynadwy.

**A allaf ddefnyddio jar neu gynhwysydd o gartref?**

Dylech ddefnyddio'r cynhwysydd y mae eich gweithiwr gofal iechyd proffesiynol wedi'i roi i chi i gasglu'r sampl.

**A oes ots pryd y byddaf yn casglu'r sampl?**

Ceisiwch gasglu'r sampl mor agos â phosibl i'ch apwyntiad er mwyn cael sampl o'r ansawdd gorau.

**Sganiwch yma** am ragor o wybodaeth

### Awgrymiadau ar gyfer dychwelyd sampl wrin

- **Dychwelwch y sampl yn gyflym**
  Ewch ag ef at eich darparwr gofal iechyd cyn gynted â phosibl – yn ddelfrydol o fewn dwy awr.
- **Cadwch e'n oer**
  Os na allwch chi ddanfon y sampl yn gyflym, rhowch ef mewn bag plastig a'i storio yn yr oergell nes y gallwch chi wneud hynny.
- **Gwiriwch amseroedd gollwng**
  Gofynnwch pryd yw'r amser gollwng -hwyraf, fel y gall y sampl gyrraedd y labordy yr un diwrnod.
- **Defnyddiwch gynwysyddion di-haint arbennig**
  Mae gan rai cynwysyddion bowdr cadwol a llinell lenwi wedi'i farcio. Ceisiwch lenwi hyd at y llinell, ond os na allwch chi, casglwch gymaint o wrin ag y gallwch.

© Hawlfraint y Goron 2026. Fersiwn 1. Cyhoeddwyd: Gorffennaf 2026. Dyddiad diwygio: Gorffennaf 2029. Datblygwyd y ddogfen hon gyda gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, cleifion a chyrff meddygol proffesiynol. Gweithredir TARGET gan Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU.